# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## CIPD Tystysgrif Sylfaen mewn Ymarfer Pobl Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cymhwyster Tystysgrif Sylfaen hwn mewn Ymarfer Adnoddau Dynol yn rhoi cyflwyniad clir i Adnoddau Dynol. Yn ogystal â darparu cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig, bydd yn eich helpu i ennill ystod eang o sgiliau perthnasol, ymarferol y gallwch eu defnyddio yn y gweithle.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...y rhai sy'n astudio, yn dyheu am, neu'n dechrau ar, yrfa mewn ymarfer pobl.

...y rhai sy'n gweithio mewn swydd cefnogi ymarfer pobl ac yn dymuno datblygu eu gwybodaeth a darparu gwerth uniongyrchol a thymor byr i'w sefydliad.

...y rhai sy'n dymuno datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth arbenigol sydd eu hangen i fod yn weithiwr pobl proffesiynol.

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r rhaglen dystysgrif wedi'i threfnu'n fodiwlau, gydag aseiniad 1500-2000 gair ar gyfer pob modiwl. Trwy astudio'r holl fodiwlau, bydd ymgeiswyr yn cwrdd â meini prawf penodol o ran cynnwys a nifer yr oriau hyfforddi a bennir gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD):

Modiwl 1 – Diwylliant Busnes a Newid mewn Cyd-destun

Modiwl 2 – Egwyddorion Dadansoddeg

Modiwl 3 - Ymddygiad Craidd ar gyfer Gweithwyr Pobl Proffesiynol

Modiwl 4 - Hanfodion Ymarfer Pobl (Recriwtio a Dethol; Rheoli Perfformiad;Hyfforddiant).

**Gofynion Mynediad**

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr 18+ oed sydd eisiau dysgu am ymarfer pobl. Er nad oes unrhyw feini prawf mynediad ffurfiol, rhaid i ddysgwyr allu bodloni gofynion y deilliannau dysgu a chael mynediad at y llythrennedd a rhifedd priodol sydd eu hangen i gwblhau'r Dystysgrif Sylfaen Lefel 3 CIPD mewn Ymarfer Pobl.

Cynhelir cyfweliad ar y ffôn gydag Arweinydd y Cwrs i egluro hyn, os oes angen, er mwyn sicrhau bod y dysgwyr ar y cwrs cywir sy'n bodloni eu hanghenion.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae Tystysgrif Sylfaen CIPD yn darparu cymhwyster a gydnabyddir yn broffesiynol ac mae'n hanfodol eich bod yn dod yn aelod o'r CIPD ar ôl i chi ddechrau astudio'r cymhwyster. Nid yw pris y cwrs yn cynnwys ffioedd cofrestru ar gyfer aelodaeth myfyriwr o'r CIPD (y mae'n rhaid eu talu'n uniongyrchol i'r CIPD).

Bydd angen i chi fynychu'r cwrs naill ai am un diwrnod neu un noson yr wythnos am 20 neu 40 wythnos yn y drefn honno (120 awr).

Mae myfyrwyr sy'n cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn cael Tystysgrif Sylfaen CIPD mewn Ymarfer Pobl.

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus gallwch drosglwyddo i'r Diploma Cyswllt Lefel 5 mewn Rheoli Pobl.